# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd/Rheoli Achosion a Phontio/Tîm Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Cymdeithasol 1, 2 a 3 – Tîm Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gradd 10 – Newydd Gymhwyso<br>Gradd 11 – SW2<br>Gradd 12 – Yn amodol ar 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso |
| **YN ATEBOL I'R:** | Dirprwy Reolwr Tîm/Rheolwr Tîm – Tîm Plant â Phrofiad o fod Mewn Gofal |

**DIBEN Y SWYDD:**

Rheoli llwyth achosion wedi'i ddyrannu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys amddiffyn plant, plant a theuluoedd y mae angen gofal a chymorth arnynt a phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Yn gyfrifol am achosion plant sy'n derbyn gofal a gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.
- Creu ac adolygu cynlluniau gofal seiliedig ar ddeilliannau sy'n mynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd mewn asesiadau gan ddilyn y model ymarfer Arwyddion Diogelwch
- Cynnal asesiadau gofal a chymorth o ansawdd uchel o anghenion plant a theuluoedd yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Tîm; Yn gyfrifol am achosion sy'n berthnasol i'ch profiad ôl-gymhwyso.
- Gweithio gydag unigolion, teuluoedd, grwpiau gofalwyr, lleoliadau preswyl a chymunedau i'w helpu i wneud penderfyniadau hyddysg, gan eu galluogi i egluro a mynegi eu hanghenion a chyfrannu at gynllunio gwasanaethau.
- Gweithio gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill mewn ffordd gydgysylltiedig i fynd i'r afael ag anghenion plant a'u teuluoedd, gan gynnwys paratoi fforymau gwneud penderfyniadau a chymryd rhan ynddynt.
- Nodi angen heb ei ddiwallu a thynnu sylw Rheolwyr yn y Gwasanaeth at hyn, a chynorthwyo wrth gasglu data yn ôl yr angen.
- Gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm proffesiynol, gan gyfrannu at weithio amlddisgyblaethol, gweithio ochr yn ochr â Gweithwyr Cymdeithasol mwy profiadol a chael eu cymorth wrth ymgymryd ag achosion risg uchel a chymhleth gan gynnwys achosion llys a chymryd rhan yn y rota Gwaith Cymdeithasol.
- Cymryd cyfrifoldeb, gyda'r Dirprwy Reolwr Tîm a'r Rheolwr Tîm, i gynnal a datblygu arfer proffesiynol, gan gynnwys nodi anghenion hyfforddi.
- Gweithio gyda fframwaith deddfwriaethol, rheoleiddiol a pholisi'r Gwasanaeth Diogelu a'r Gwasanaeth Asesu.

- Mae disgwyliad y gall y rôl hon gyfnewid â swyddi Gweithwyr Cymdeithasol eraill o fewn y gwasanaeth Diogelu ac Asesu.

**Gradd 11 – Fel yr uchod ynghyd â**

- Bod yn gyfrifol am sawl achos o gymhlethdod cynyddol gan gynnwys mwy o gymorth i achosion ag unrhyw achosion llys cysylltiedig, gyda'r cyfle i gydweithio.
- Mentora a chefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol yn eu hymarfer.

**Gradd 12 - Fel yr uchod ynghyd â'r canlynol:**

- Goruchwylio Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ac aelodau eraill o staff iau.
- Rhoi cyngor ac arweiniad i weithwyr cymdeithasol llai profiadol.
- Ymgymryd ag achosion amddiffyn plant, cymorth i deuluoedd a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal sensitif, acíwt a chymhleth a fydd yn gofyn am fynd i'r llys yn rheolaidd.
- Arwain cydweithio â Gweithwyr Cymdeithasol llai profiadol mewn achosion cymhleth.
- Cynnal asesiadau cymhleth o achosion risg uchel yn rheolaidd a chymryd y cyfrifoldeb arweiniol am lunio cynlluniau rheoli risg a chynlluniau gofal llys.
- Gweithio gyda theuluoedd â sefyllfaoedd cymhleth a darparu ymateb cryf i anghenion a phryderon a nodwyd. Bydd hyn yn cynnwys:
  - Asesiadau Gofal a Chymorth.
  - Ymchwiliadau amddiffyn plant a chynllunio ac adolygu gofal.
  - Gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal.
  - Gwaith gofal a chymorth cymhleth arall fel y bo'n ofynnol.
  - Achosion Gofal.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch.

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymdeithasol 1 a 3 – Tîm Plant â Phrofiad o fod Mewn Gofal

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster Gwaith Cymdeithasol arall a gydnabyddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru.<br>• Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.<br>• PQ – Rhaglen Atgyfnerthu os ydych wedi cymhwyso ar ôl mis Ebrill 2016.<br>• 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ar gyfer GC3 yn unig | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gwybodaeth am y Fframwaith Asesu a gweithdrefnau amddiffyn plant rhyngasiantaeth neu brofiad o hyn.<br>• Gwybodaeth am gyfrifoldebau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac am Bolisi, Canllawiau Statudol a'r Gyfraith bresennol fel y maent yn cael eu cymhwyso a sut y maent yn effeithio ar bobl o ran darparu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.<br>• Profiad o wneud gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd mewn angen.<br>• Profiad o reoli llwyth achosion.<br>• Profiad uniongyrchol o achosion cymhleth.<br>• Profiad uniongyrchol o ysgrifennu asesiadau risg a chynlluniau gofal llys.<br>• Profiad uniongyrchol o waith llys. | Ydy<br>Ydy<br><br>Ar gyfer GC3 yn unig<br>Ar gyfer GC3 yn unig<br>Ar gyfer GC3 yn unig | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau eraill.<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol, cyflwyno a deall gwybodaeth gymhleth.<br>• Gallu blaenoriaethu a chymryd cyfrifoldeb am reoli llwyth gwaith a pherfformiad. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol.<br>Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (Parhad)** | • Gallu asesu a dadansoddi risg yn y cyd-destun ehangaf.<br>• Uniondeb personol a phroffesiynol.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol.<br>• Sgiliau TG effeithiol i wneud y defnydd gorau posibl o'r cyfryngau cyfathrebu sydd ar gael i ledaenu gwybodaeth a chynnal cofnodion seiliedig ar gyfrifiaduron yn unol â gofynion y llywodraeth. | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Gallu gwneud penderfyniadau'n briodol. | Ar gyfer GC3 yn unig | |
| | • Sgiliau ardderchog ym maes ymchwilio ac asesu. | Ar gyfer GC3 yn unig | |
| | • Gallu datrys problemau wrth weithio dan bwysau. | Ar gyfer GC3 yn unig | |
| | • Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd.<br>• Mae'r gallu i gyfarch cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r gofynion ar gyfer y swydd hon. | Ydy | |